



**Wise  
Cymru**

**Wise  
Wales**

# **Adroddiad Blynyddol**

2016/2017



## Cefndir Wise Cymru

Mae Wise Cymru yn fenter gydweithredol draws-sector sy'n cynnwys mudiadau sector addysg Cymru. Ei diben yw:

**“Creu partneriaeth ystyrlon rhwng addysgwyr, undebau myfyrwyr a myfyrwyr ledled Cymru”.**

## Addysg Uwch

Fis Mehefin 2014, lansiodd y sector addysg uwch yng Nghymru ddatganiad o 'Bartneriaeth ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru' a ddatblygwyd ar y cyd, yng nghynhadledd gyntaf Partneriaeth i Gymru. Nod y datganiad hwn oedd esbonio tri phrif bwynt: y bartneriaeth rhwng myfyrwyr, prifysgolion ac undebau myfyrwyr; pa ffurf sydd i hyn yn ymarferol; a'r hyn gellir ei wneud i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ledled Cymru. Golygodd cyhoeddiad y datganiad hwn mai Cymru yw gwlad gyntaf y DU i gytuno ar ymrwymiad traws-sector i bartneriaeth.

Nod Wise Cymru yw gweithredu fel corff cynghori sy'n cynnig cyfleoedd ac adnoddau sy'n galluogi sefydliadau i ddatblygu a gwella eu harferion partneriaeth eu hunain. Mae'r prosiect yn cynnig cefnogaeth i sefydliadau, myfyrwyr ac undebau myfyrwyr, i symud y tu hwnt i ddim ond ymgysylltu â myfyrwyr, tuag at bartneriaeth ac yna cynorthwyo eu datblygiad parhaus. Mae'r prosiect yn cydnabod y bydd golwg a theimlad gweithio mewn partneriaeth yn unigryw i bob prifysgol ac nad oes diweddglu i bartneriaeth, ond yn hytrach ei fod yn arferiad sy'n parhau i ddatblygu. Mae'r prosiect yn rhoi trosolwg unigryw o bartneriaeth yng Nghymru a'r tu hwnt iddi, gan ddefnyddio'r cipolwg hwn i roi cymorth gwell i bob sefydliad.

## Mae'r egwyddorion sy'n ffurfio sail i'r gwaith fel a ganlyn:

- **Partneriaeth:** Dylai Wise Cymru symud ymlaen o siarad am ymgysylltu â myfyrwyr at bartneriaeth
- **Cydweithredu:** Mae cydweithio a rhannu arfer da, rhwng undebau myfyrwyr a sefydliadau, yn allweddol i greu ymagwedd o bartneriaeth.
- **Gwybodaeth, sgiliau a gallu:** Gwella hyn ar draws sefydliadau ac undebau myfyrwyr.
- **Cyfathrebu:** Hyrwyddo gweithgareddau ac effeithiau Wise Cymru i'r Llywodraeth, y cyhoedd a'r sector yn ehangach.
- **Cynladwyedd:** Gweithio o fewn fframwaith y gellir ei gynnal o fewn cyfyngiadau cyllido.



Yn 2016/17, cafodd gweithgareddau AU Wise Cymru eu cyllido drwy gyfraniadau gan CCAUC, a'r naw sefydliad addysg uwch sydd yng Nghymru. Mae'r ASA a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd yn bartneriaid yn y gwaith hwn.

### **Addysg Bellach:**


Hefyd cafodd prosiect Wise Cymru ei gyllido gan Lywodraeth Cymru yn 2016/2017 i gynnal prosiect penodol â'r nod o ymgysylltu myfyrwyr a sefydliadau addysg bellach mewn datblygu strwythurau llais y dysgwr. Mae Estyn a Colegau Cymru yn bartneriaid yn y prosiect hwn.

Lluniwyd Adroddiad Cyfamserol ar wahân, yn canolbwyntio'n ar waith Wise Cymru mewn Addysg Bellach, ym mis Mawrth 2017.

### **Beth ydym yn ei olygu wrth 'bartneriaeth'?**

Pan rydym yn sôn am ddiwylliant partneriaeth, rydym yn cyfeirio at fyfyrwyr yn cael llais ar y cyd â'u sefydliad addysgol ar ansawdd yr addysg a ddarperir. Mae partneriaeth yn ymwneud â pharchu a gwerthfawrogi cryfderau pob carfan sy'n cydweithredu, cytuno ar flaenoriaethau sydd o fudd i bawb, cyfathrebu'n effeithiol a gweithio ynghyd i gyrraedd amcan cyffredin.

Cred Wise Cymru fod pob myfyriwr yn arbenigwr a bod modd i bawb gyfrannu eu safbwynt unigryw at y drafodaeth. Drwy weithio mewn partneriaeth â'u sefydliad, gellir helpu myfyrwyr i gynllunio eu profiadau addysgol eu hunain.



*"Creu partneriaeth  
ystyrlon rhwng  
addysgwyr, undebau  
myfyrwyr a  
myfyrwyr ledled  
Cymru"*



## **Cymorth penodol ar gyfer sefydliadau ac undebau myfyrwyr AU**

Nodwedd allweddol gwaith Wise Cymru yn 2016/17 oedd parhau â'r rhaglen gymorth penodol, a gyflwynwyd yn gyntaf yn 2015/15, i roi cymorth i bob sefydliad ac undeb myfyrwyr mewn meysydd ymgysylltu â myfyrwyr a phartneriaeth a oedd yn flaenoriaethau iddynt ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Daeth yr ychwanegiad hwn at gynllun y prosiect o ganlyniad i ymgynghoriad ar y prosiect a gynhaliwyd yn gynnar yn 2014 a'r argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad Dros Dro a gyhoeddwyd yn sgil hynny.

Cyfarfu tîm Cymru Wise â staff a / neu swyddogion etholedig ym mhob undeb myfyrwyr AU ar ddechrau'r flwyddyn academaidd i nodi pa feysydd y gallai Wise Cymru gynnig cymorth â nhw. Cofnodwyd y rhain ac anfonwyd adnoddau neu gyngor i'r sefydliad fel bo angen. Roedd y cyfarfodydd eu hunain hefyd yn gyfle i drafod yr heriau presennol sy'n wynebu'r staff o ran arferion partneriaeth ac i ystyried syniadau a datrysiadau i'r heriau hyn.

Mae'r canlynol ymhlith rhai o'r meysydd penodol y cynigiodd Wise Cymru gymorth neu gyngor ynddynt i sefydliadau ac undebau myfyrwyr yn ystod y flwyddyn:

- Myfyrwyr fel partneriaid mewn cynllunio'r cwricwlwm a ffurfio asesiadau
- Strategaeth addysgu a dysgu dan arweiniad myfyrwyr
- Datblygu hyfforddiant ar-lein ar gyfer cynrychiolwyr cwrs
- Mekanweithiau ar gyfer casglu adborth myfyrwyr
- Cynnal ymgysylltiad cynrychiolwyr gydol y flwyddyn
- Cynorthwyo cynrychiolwyr i ymgysylltu â materion ehangach a pholisi addysg, nid dim ond materion sy'n ymwneud â'u cwrs
- Cod ymddygiad / ymarfer ar gyfer cynrychiolwyr myfyrwyr
- Cynnwys rôl fel cynrychiolydd yn y Cofnod o Gyrhaeddiad mewn AU (HEAR)
- Cynllunio ar gyfer gweithredu'r adroddiad ansawdd blynyddol yn dilyn creu'r adroddiad ansawdd blynyddol
- Hyfforddiant ar gyfer staff academaidd ynglŷn â rôl a gwerth partneriaeth myfyrwyr

Roedd Y Talwrn (digwyddiad hyfforddiant haf UCM Cymru ar gyfer swyddogion sabothol mewn AU) hefyd yn cynnwys sesiwn hyfforddi ar bartneriaeth myfyrwyr a sut y gall y swyddogion wneud y gorau o weithio mewn partneriaeth â'u sefydliad.



## Effaith

Mae staff a swyddogion undebau myfyrwyr a sefydliadau wedi dweud eisoes bod y model hwn ar gyfer cymorth yn ddefnyddiol am ei fod yn gweddu i wahanol anghenion pob sefydliad unigol, ac yn sicrhau bod y cymorth yn gwbl berthnasol. Mae wedi galluogi tîm Wise Cymru i weithio gydag undebau myfyrwyr a sefydliadau ar ystod amrywiol o flaenoriaethau, gan ddarparu cyngor a chefnogaeth bersonol i bob aelod.

## Datblygiad yn y Dyfodol

Fodd bynnag, mae teimlad hefyd nad y gwaith hwn yw'r math mwyaf effeithiol o gefnogaeth bellach, o ystyried anghenion y sector a gallu tîm Wise Cymru. Felly, penderfynwyd y bydd Wise Cymru, o 2017/18 ymlaen, yn symud ffocws eu gwaith i ganolbwyntio ar ddwy thema allweddol bob blwyddyn; penderfynnir ar y rhain mewn ymgynghoriad â sefydliadau ac undebau myfyrwyr. Bydd Wise Cymru'n ymchwilio ac yn creu adnoddau datblygu ar gyfer pob thema, ac yn annog sefydliadau i gydweithio i weithredu mentrau newydd. Bydd y gwaith hwn yn disodli'r gefnogaeth unigol a ddarperir ar hyn o bryd, er y byddai cyngor ac arweiniad achlysurol ar gael yn ôl yr angen.

## Pecyn Cymorth Canllawiau Partneriaeth

Mae Wise Cymru wedi bod yn annog Sefydliadau AU ac undebau myfyrwyr i gwblhau pecyn cymorth Canllawiau Partneriaeth. Mae hyn yn caniatáu i sefydliadau unigol ddadansoddi eu cryfderau eu hunain a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae eu canlyniadau hefyd wedi cael eu casglu ynghyd a'u cyfuno i roi darlun Cymru-gyfan o gryfderau a gwendidau mewn arferion partneriaeth myfyrwyr. Darperir crynodeb o'r canlyniadau hyn fel atodiad i'r adroddiad hwn.

Bydd y canlyniadau hyn yn cael eu defnyddio fel man cychwyn ar gyfer trafodaethau ynghylch meysydd gwaith allweddol Wise Cymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, fel y gellir targedu'r gefnogaeth yn ôl gwendidau ar draws y sector.

Ar lefel sefydliad, anogir staff ac aelodau undeb y myfyrwyr i ailystyried y pecyn cymorth hwn yn flynyddol, fel y gallant olrhain a monitro datblygiad eu diwylliant partneriaeth. Byddant hefyd yn parhau i gael eu hannog i rannu'r rhain â Wise Cymru fel y gellir cynnal darlun Cymru-gyfan, a bod unrhyw newid negyddol yn cael sylw fel mater o flaenoriaeth.



## Rhwydwaith Partneriaeth Staff AU

Ers Mehefin 2015, mae Wise Cymru wedi bod yn hwyluso rhwydwaith ar gyfer staff mewn sefydliadau ac undebau myfyrwyr AU sydd â llais myfyrwyr, ymgysylltiad myfyrwyr a phartneriaeth yn rhan o'u gwaith.

Caiff y rhwydwaith ei arwain gan staff, a'i fwriad yw rhoi cymorth i aelodau staff sydd â chyfoeth o wybodaeth a phrofiad a fydd yn hanfodol i ddatblygiad partneriaeth ar draws Cymru gyfan. Mae hefyd yn cydnabod y ffaith, er bod swyddogion etholedig a chynrychiolwyr myfyrwyr yn eu rôl am gyfnod cymharol fyr, bod staff yn darparu'r sefydlogrwydd a'r parhad angenrheidiol i barhau â datblygu'r agenda bartneriaeth.

Cyfarfu rhwydwaith partneriaeth staff AU ddwywaith yn ystod 2016/17, unwaith fis Tachwedd ac unwaith fis Chwefror. Mae cyfarfodydd y rhwydwaith yn cynnwys cyfuniad o weithdai a siaradwyr gwadd – a ddewisir yn ôl diddordebau presennol y grŵp – a chyfleoedd i drafod materion a rhannu syniadau a phrofiadau.

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf Rhwydwaith Partneriaeth Staff AU ochr yn ochr â Chynhadledd y Cynrychiolwyr Cwrs yn Wrecsam ar yr 8<sup>fed</sup> Chwefror. Daeth nifer dda i'r cyfarfod, gyda thros 20 aelod staff yn bresennol; disgrifiwyd yr achlysur fel 'ddefnyddiol' ac 'addysgiadol' yn yr adborth.

Ymhlith y gweithdai a gynhaliwyd yn y ddau gyfarfod yn 2016/17 roedd:

- Datblygiadau yn y sector AU a rôl partneriaeth myfyrwyr, James Dunn a Fflur Elin, UCM Cymru;
- Beth yw ymgysylltiad myfyrwyr? Rhys Dart, UM PCyDDS a Cliona O'Neill, CCAUC;
- Astudiaeth achos partneriaeth myfyrwyr effeithiol, Danielle Barnard, Undeb Bangor a Jo Caulfield, Prifysgol Bangor.

Mynychodd nifer o aelodau'r rhwydwaith Gynhadledd Partneriaeth i Gymru hefyd, a rhoddwyd cyfle iddynt gyflwyno ar elfennau o'u harferion da.

### Effaith

Mae'r rhwydwaith yn parhau i roi cyfle i staff ledled Cymru rannu arferion gorau, rhannu syniadau ac adeiladu rhwydwaith penodol ym maes partneriaeth. Mae hyn yn helpu i ddatblygu gweithgareddau partneriaeth mwy effeithiol ym mhob sefydliad unigol, gan hefyd gynorthwyo â gwella ansawdd ledled Cymru. Cyn sefydlu'r rhwydwaith hwn, nid oedd unrhyw fforwm penodol yng Nghymru ar gyfer gwneud hyn.

### Datblygiad yn y Dyfodol

Yn 2017/2018, y bwriad yw y bydd Rhwydwaith Staff AU yn chwarae rôl fwy canolog yn y prosiect, gan weithredu fel grwpiau â buddiannau sy'n gysylltiedig â phob un o'r themâu allweddol, gyda'r aelodau'n gyfrifol am sbarduno'r gweithredu yn eu sefydliadau eu hunain.



## Cynhadledd Cynrychiolwyr Cwrs

Anelir Cynhadledd y Cynrychiolwyr Cwrs at gynrychiolwyr cwrs a chynrychiolwyr dysgwyr eraill o bob rhan o AU ac AB. Mae'n gyfle i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth, ynghyd â rhwydweithio a rhannu profiadau a syniadau.

Cynhaliwyd y Gynhadledd Cynrychiolwyr Cwrs Wise Wales ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam a Choleg Cambria ar 8<sup>fed</sup> Chwefror. Dyma'r flwyddyn gyntaf y rhannwyd y gynhadledd yn gynhadledd AU a chynhadledd AB, mewn ymateb i adborth bod angen i'r cynnwys gael ei deilwra'n well at anghenion y ddwy garfan o gynrychiolwyr.

Yn y Gynhadledd AU yn UM Glyndŵr, canolbwyntiodd y cynrychiolwyr ar adeiladu ymgyrchoedd effeithiol ar eu campysau, a defnyddio eu rôl i godi eu llais dros Addysg Gynhwysol. Cyflwynwyd sesiynau gan Rob Samuel o Undeb Bangor, Llywydd UCM Cymru, Fflur Elin, a Chydlynedd Wise Cymru, Daniel Roberts.

Roedd cyfleoedd hefyd yn ystod y naill gynhadledd a'r llall i'r cynrychiolwyr fyfyrion ar eu profiadau eu hunain, a chydweithio i ganfod datrysiadau i'r heriau y maent yn eu hwynebu yn eu rôl.

Cafwyd adolygiadau da yn sgil Cynhadledd y Cynrychiolwyr Cwrs, gyda phob agwedd ar y diwrnod, o gofrestru i'r cynnwys, yn cael sgôr oedd o leiaf 5 allan o 6 gan y rheiny a fynychodd y digwyddiad. Un o'r uchafbwyntiau arbennig oedd y cyfleoedd rhwydweithio a gafwyd, er y gallai gwella'r wybodaeth a ddarparwyd cyn y digwyddiad ei hun, fel bod gan gynrychiolwyr well syniad o'r hyn y gallent ei ddisgwyl cyn cyrraedd, fod yn rhywbeth i weithio arno yn y dyfodol.

### Effaith

Roedd y manteision yn sgil mynychu'r gynhadledd hon, fel y mynegwyd gan y cynrychiolwyr ar eu ffurflenni adborth, yn cynnwys mwy o hyder wrth gyflawni eu rôl fel cynrychiolwyr, gwell dealltwriaeth o sut y gallai cynrychiolwyr cwrs fod yn rhan o wella arferion yn ogystal ag adrodd ar faterion cyfredol, a sut y gallent weithio'n fwy effeithiol gyda chynrychiolwyr eraill.

Roedd llawer o gynrychiolwyr hefyd yn teimlo bod eu sgiliau arweinyddiaeth wedi gwella o ganlyniad i'r gynhadledd, a'u bod yn dychwelyd i'w sefydliadau â hyder a brwdfrydedd newydd.





## Cynhadledd Partneriaeth i Gymru

Mae Cynhadledd Partneriaeth i Gymru bellach yn ei thrydedd flwyddyn, ac mae wedi'i chyfeirio at swyddogion sabothol mewn undebau myfyrwyr a staff perthnasol mewn undebau myfyrwyr a sefydliadau.

Cynhaliwyd Cynhadledd Partneriaeth i Gymru 2017 ddydd Mercher 24<sup>ain</sup> Mai ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd. Ar sail adborth ac awgrymiadau o ddigwyddiadau blaenorol, thema'r gynhadledd oedd 'Dathlu ac Arddangos Arfer Da yng Nghymru', ac anogwyd colegau a phrifysgolion i redeg gweithdai oedd yn arddangos eu gwaith partneriaeth myfyrwyr dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mynychwyd y digwyddiad diwrnod-cyfan gan tua 40 o aelodau staff a swyddogion o 11 o undebau myfyrwyr a sefydliadau AU ac AB a chyrrff y sector addysg ledled Cymru; cynhaliwyd amryw o weithdai a sesiynau ar ystod o bynciau. Bwriad y gynhadledd oedd rhoi cyfle i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth ynghylch partneriaeth, gyda phwyslais ar rannu profiadau ac arferion da, gan ganiatáu i'r cynrychiolwyr ddatblygu syniadau am welliant yn y dyfodol.

Roedd y canlynol ymhlith y sesiynau:

- Prif araith agoriadol gan yr Athro Cara Aitchison, Is-Ganghellor Prifysgol Fetropolitan Caerdydd; Brad Woolridge, Llywydd Undeb y Myfyrwyr a Will Fuller, Is-Lywydd Undeb y Myfyrwyr
- Ail araith allweddol gan Joan O'Mahony, Academi AU
- Ymgysylltiad undebau myfyrwyr â chynlluniau ffioedd a mynediad - CCAUC
- Ymgorffori llais myfyrwyr mewn addysgu - Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
- Wythnos Siarad - Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
- Sicrhau cynrychiolaeth academaidd gadarn - Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe
- Ymgysylltiad â Myfyrwyr yng Ngholeg City & Islington - Coleg City & Islington
- Llais y dysgwyr yng Ngholeg Sir Gâr - Coleg Sir Gâr
- Defnyddio grwpiau ffocws ar gyfer creu newid - Dysgu Oedolion Cymru
- Y diweddaraf ar bolisi AU - UCM Cymru
- Rhedeg UM mewn AB - UCM Cymru

Hefyd cynhaliodd Wise Cymru ddwy sesiwn yn trafod themâu a thueddiadau a nodwyd o'r pecyn cymorth Llwybrau Partneriaeth (AU), a rhannu arferion da a nodwyd yn ystod prosiect Llwybrau Partneriaeth AB.





Roedd yr adborth ar y cyfan yn gadarnhaol iawn, gyda sgôr o 4/5 ar gyfartaledd ar gyfer boddhad â'r digwyddiad a manteision mynychu'r gynhadledd; nododd nifer o gynrychiolwyr bod y digwyddiad wedi bod yn ddefnyddiol iddyn nhw. Cafodd y sesiynau a gyflwynwyd gan UMau Cymru a sesiwn Coleg City & Islington dderbyniad arbennig o dda; fe'u disgrifiwyd fel bod yn addysgiadol a defnyddiol, ac roedd y cynrychiolwyr yn teimlo y gallent eu cymryd yn ôl i'w sefydliadau a'u gweithredu.

Ymysg y gwelliannau a nodwyd ar gyfer cynadleddau yn y dyfodol mae cynllun cliriach ar gyfer cefnogi syniadau ac arferion a gaiff eu rhannu yn y gynhadledd, er mwyn sicrhau bod i'r gynhadledd effaith hirdymor o ran partneriaeth myfyrwyr yng Nghymru.

### **Effaith**

Roedd manteision mynychu'r gynhadledd hon, fel y nodwyd gan y cynrychiolwyr ar eu ffurflenni adborth, yn cynnwys dysgu am fentrau sydd ar waith mewn prifysgolion, colegau ac undebau myfyrwyr eraill, a gallu mynd â syniadau o'r sesiynau hyn gyda nhw i'w harchwilio a'u gweithredu yn eu sefydliad eu hunain. Byddwn yn trafod hyn ymhellach gyda sefydliadau yn ystod ymweliadau cyswllt blynyddol 2017/18, fel bod modd cofnodi canlyniad ac effaith hirdymor gweithredu'r syniadau hyn.



## **Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: hyfforddiant a chymorth i gynrychiolwyr**

Mae Wise Cymru wedi bod yn gweithio'n glòs gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan ddarparu cymorth ymgynghorol i sicrhau bod llais myfyrwyr yn gryf ac yn effeithiol o fewn system gynrychiolaeth fewnol y Coleg.

Yn ogystal â hyn, darparodd Wise Cymru hyfforddiant i ddwy garfan o gynrychiolwyr myfyrwyr sydd ar Fwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg. Canolbwynt y sesiynau hyfforddi oedd bod yn gynrychiolydd effeithiol, mewn cyfarfodydd pwyllgor ac ar eu campysau. Ymhlith y pynciau a drafodwyd oedd arweinyddiaeth, siarad cyhoeddus, sgiliau cyfarfod a sut i ennyn diddordeb myfyrwyr mewn materion sydd o bwys iddynt.

### **Effaith**

Mae'r bartneriaeth barhaus rhwng Wise Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn helpu i sicrhau bod myfyrwyr yn chwarae rôl ganolog yn natblygiad byr dymor a hir dymor y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac addysg gyfrwng-Cymraeg.

Teimlodd y cynrychiolwyr myfyrwyr a fynychodd y sesiynau hyfforddi bod ganddynt well sgiliau ar gyfer cynrychioli eu cyfoedion, i ymgysylltu'n llawn â'u rôl ar y Bwrdd Academaidd a chwarae rôl allweddol wrth osod yr agenda ar gyfer dyfodol y Coleg.



## Digwyddiadau a rhwydweithiau'r sector

Mae Wise Cymru wedi mynychu ac wedi cyflwyno sesiynau mewn amryw o ddigwyddiadau ar draws y sector gydol 2016/2017. Mae hyn yn rhan annatod o'r gweithgaredd, gan ei fod o gymorth o ran cynorthwyo cyfathrebu parhaus â'r sector yn ehangach, yn ogystal â hyrwyddo'r prosiect. Mae hefyd yn sicrhau bod y prosiect yn casglu arferion a syniadau o Gymru a'r tu hwnt iddi er mwyn rhoi cymorth i'n haelodau i ddatblygu partneriaeth.

Crynodeb o'r digwyddiadau a'r rhwydweithiau a fynychwyd gan Wise Cymru:

- Materion Ansawdd 2016
- RAISE Cyfarfodydd Grŵp Partneriaeth Buddiannau Arbennig
- RAISE Cynhadledd Flynyddol 2016
- Cynhadledd Ryngwladol ar Bartneriaeth
- Cynhadledd REACT 2017
- Academi AU, Beth sy'n Gweithio? Cynhadledd Derfynol
- Rhwydwaith Penaethiaid Colegau Cymru
- Gŵyl Sgiliau ac Addysg AB

### Effaith

Mae mynychu digwyddiadau fel y rhai a restrir uchod yn cael ei ystyried yn ddull allweddol o sicrhau bod Wise Cymru'n cael gwybodaeth gyflawn am ymchwil newydd a mentrau llwyddiannus sy'n ymwneud â phartneriaeth myfyrwyr. Gellir rhannu'r wybodaeth a geir mewn digwyddiadau o'r fath â rhwydweithiau Wise Cymru er mwyn gwella arferion yng Nghymru, a gwahoddir siaradwyr o'r digwyddiadau i gynnal gweithdai yn nigwyddiadau Wise Cymru.

## Gweithgareddau ychwanegol mewn AU

Bydd Wise Cymru a CCAUC yn cyhoeddi taflen yn fuan yn cynnig cipolwg o'r astudiaethau achos arfer da a dderbyniwyd gan sefydliadau. Roedd hyn mewn ymateb i alwad CCAUC am astudiaethau achos gan sefydliadau ac undebau myfyrwyr ar sut y maent yn ymgysylltu â'u grwpiau o fyfyrwyr sy'n anodd eu cyrraedd. Mae'r daflen hon yn canolbwyntio ar y tri grŵp o fyfyrwyr a ddaeth i'r amlwg yn y rhan fwyaf o ymatebion: dysgwyr o bellter, rhai sy'n gadael gofal, a myfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu. Bwriedir i'r ddogfen roi cipolwg o'r mentrau a'r ymdrechion sydd ar waith ledled Cymru.

Cyfrannodd Wise Cymru at yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ansawdd a Gwella Addysg Uwch newydd, a byddwn yn gweithio gyda'r ASA i ganfod sut y gall Wise Cymru gynorthwyo sefydliadau AU i weithio mewn partneriaeth â'u myfyrwyr yn ystod y broses adolygu.



## **Y camau nesaf**

Bydd 2017/18 yn dod â rhai newidiadau sylweddol i Wise Cymru, gan symud y ffocws i themâu gwaith allweddol yn hytrach na'r rhaglen o gefnogaeth wedi'i theilwra sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd y rhwydwaith staff presennol a chynadleddau'n cael eu cysylltu â'r themâu hyn yn hytrach na bod yn weithgaredd annibynnol.

Bydd y broses hon yn dechrau gyda datblygu cynllun strategol newydd ar gyfer Wise Cymru, a gaiff ei gyd-greu ochr yn ochr â Grŵp Dysgu ac Addysgu'r Dirprwy Is-Ganghellorion, swyddogion undebau myfyrwyr ac aelodau staff ymgysylltu / llais myfyrwyr o bob cwr o Gymru.